# Dyfarniad Cymrodoriaeth Ddoethurol 2025
# Adroddiad y Cadeirydd

## Cadeiryddion:

Cadeirydd: Dr Emily Holmes, Darllenydd mewn Economeg Iechyd, Prifysgol Bangor

Dirprwy Gadeirydd: Yr Athro Deb Fitzsimmons, Athro Economeg Iechyd ac Ymchwil Canlyniadau, Prifysgol Abertawe, a Chyd-gyfarwyddwr, Economeg Iechyd a Gofal Cymru

## Panel:

Nicola Evans - Darllenydd, Prifysgol Caerdydd

Delyth James - Athro Seicoleg Iechyd mewn Ymarfer Fferylliaeth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Ben Hannigan - Athro Nyrsio Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd

Davina Allen - Athro Darparu a Threfnu Gwasanaethau, Prifysgol Caerdydd

Linda Cusworth - Cymrawd Ymchwil Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Caerhirfryn

Harry Ahmed - Meddyg, Prifysgol Caerdydd

Liam Gray - Athro Niwrolawdriniaeth, Prifysgol Caerdydd

Tom Wilkinson - Athro Imiwnedd Rhwystr a Chlefydau Heintus, Prifysgol Abertawe

Jim Fitzgibbon - Aelod o'r Cyhoedd

## Cyflwyniad

Cenhadaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw hyrwyddo, cefnogi a darparu goruchwyliaeth gyfunol o waith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn sicrhau ei fod o'r ansawdd gwyddonol rhyngwladol uchaf, ei fod yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a'i fod yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau cleifion, pobl a chymunedau yng Nghymru.

Nod y **Dyfarniad Cymrodoriaeth Ddoethurol** yw cefnogi unigolion talentog i ymgymryd ag ymchwil sy'n arwain at gwblhau PhD ac i gefnogi'r gwaith o feithrin gallu ym maes ymchwil iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Gymrodoriaeth yn cynnig cyllid ar gyfer costau cyflog yr eir iddynt yn uniongyrchol (ni chaniateir gorbenion na chostau anuniongyrchol) am dair blynedd o gyllid llawn amser, neu bedair neu bum mlynedd o gyllid rhan-amser, ffioedd dysgu PhD, a chostau prosiect ymchwil priodol a rhaglen hyfforddi a datblygu.

Dyma nifer y ceisiadau a ddaeth i law a'r dyfarniadau a wnaed ar gyfer cystadleuaeth 2025:

**Wedi ymgeisio:** 21
**Yn gymwys:** 21
**Dyfarnwyd:** 4

## Dyfarniadau Cymrodoriaeth Ddoethurol

Lansiwyd y cynllun ar 17 Hydref 2024 a daeth i ben ar 15 Ionawr 2025.

### Sylwadau a chyngor i ddarpar ymgeiswyr

Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y panel wedi gwneud sylwadau ar gryfderau a gwendidau cyffredinol y ceisiadau cymwys ac wedi trafod meysydd y dylai darpar ymgeiswyr eu hystyried i gryfhau eu cais. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

Uchelgais ymchwil a rôl broffesiynol
Cynnwys y cyhoedd a'r gyllideb ar gyfer cynnwys y cyhoedd
Methodoleg a hyfforddiant
Cadarnhau mynediad at gyfleusterau a data
Seilwaith ac arbenigedd ymchwil yng Nghymru

#### Uchelgais ymchwil a rôl broffesiynol

Roedd y panel yn falch o weld lefelau uchel o gymhelliant ac uchelgais i ddilyn prosiectau ymchwil yng Nghymru, yn aml ochr yn ochr ag ymrwymiad i rolau proffesiynol. Canmolwyd ymgeiswyr a ddangosodd eu huchelgais i ddilyn gyrfa ym maes ymchwil, gan amlinellu eu llwybr yn glir. Hoffai'r panel atgoffa pob ymgeisydd, ynghyd â'i ddatganiad o uchelgais, fod angen darparu tystiolaeth o ymrwymiad gan ei sefydliad cefnogol a chynnig ymchwil wedi'i gyfiawnhau'n dda a fydd yn cefnogi llwybr i ymchwil annibynnol.

Cyfradran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales Faculty

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

## Cynnwys y cyhoedd a chyllideb ar gyfer cynnwys y cyhoedd

Mae ymgorffori elfen cynnwys y cyhoedd yr ymchwil arfaethedig yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Er ein bod yn gweld mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnwys y cyhoedd, roedd y panel yn siomedig i weld y cyllidebau cyfyngedig ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn nifer o geisiadau. Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cymryd cynnwys y cyhoedd o ddifrif ac yn disgwyl i gydnabyddiaeth ariannol am weithgareddau cynnwys y cyhoedd gael ei thalu ar y cyfraddau a argymhellir. Mae'n hanfodol dangos cynnwys y cyhoedd yn gynnar wrth ddatblygu cynnig ymchwil. Mae cynnwys y cyhoedd yn un o'r meini prawf asesu a ddefnyddir gan y panel wrth adolygu pob cais ac mae aelodau cynnwys y cyhoedd yn eistedd ar y paneli cyfweld. Rydym yn gwerthfawrogi bod rhai meysydd ymchwil yn fwy cyfarwydd â chynnwys y cyhoedd nag eraill, fel prosiectau labordy. Gweler tudalennau gwe Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gynnwys y cyhoedd i gael rhagor o arweiniad ar sut i gynnwys y cyhoedd yn yr ymchwil arfaethedig ac i gysylltu ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

## Methodoleg a hyfforddiant

Mae angen ystyried y dull methodolegol yn ofalus iawn a dylai fod yn briodol ar gyfer yr ymchwil sy'n cael ei chyflawni. Mae'n hanfodol bod yr ymchwil arfaethedig yn cael ei chefnogi gan ddulliau ymchwil cadarn y gall yr ymgeisydd eu cyfiawnhau'n annibynnol. Hoffai'r panel weld ymgeiswyr yn cynnig dulliau methodolegol arloesol i'w hymchwil. Fodd bynnag, rhaid i hyn gael ei nodi'n briodol a'i gefnogi gan hyfforddiant neu fentora gan arbenigwyr yn y maes. Os nad oes gan ymgeisydd yr arbenigedd angenrheidiol yn y dulliau ymchwil y mae'n eu cynnig yn ei gais, bydd y panel yn disgwyl gweld hyfforddiant penodol fel rhan o'r rhaglen hyfforddi a datblygu a chymorth perthnasol ar ffurf goruchwyliwr neu fentor addas.

## Cadarnhad o fynediad at gyfleusterau a data, os yn llwyddiannus

Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa bod dichonoldeb cynnal yr ymchwil arfaethedig yn ystyriaeth bwysig wrth liniaru risg. Dylai ymgeiswyr geisio llythyrau o gefnogaeth gan yr holl sefydliadau a nodir yn y cynnig ymchwil sy'n manylu ar eu hymrwymiad i gefnogi'r ymchwil, os caiff ei hariannu. Roedd y panel yn siomedig gan ddiffyg eglurder rhwng prosiectau PhD ac astudiaethau neu dreialon sy'n gorgyffwrdd. Rydym yn annog pob ymgeisydd i wahaniaethu rhwng ei brosiect PhD ac unrhyw ymchwil flaenorol neu gydamserol. Gall llythyr cefnogi ffurfiol a manwl wedi'i lofnodi gan gydweithredwyr fod yn dystiolaeth o hyn.

## Seilwaith ac arbenigedd ymchwil yng Nghymru

Dylid ystyried cyd-destun yr ymchwil arfaethedig o fewn y seilwaith ymchwil presennol yng Nghymru. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o grwpiau ymchwil a seilwaith presennol sy'n cyd-fynd â'u hymchwil, a dylent fod yn gallu rhagweld lle y byddant yn gwneud cyfraniad, pe bai'r prosiect yn cael ei ariannu.

# Adnoddau Defnyddiol i Ddarpar Ymgeiswyr

Mae arweiniad ar gyfer y cynllun ar gael ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae hyn yn rhoi manylion am y meini prawf cymhwysedd ac asesu a dylid ei ddarllen yn llawn cyn mynd ati i lunio cais.

Sylwch y bydd arweiniad wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi gyda lansiad pob galwad a rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cyfeirio at yr arweiniad diweddaraf ar gyfer y cynllun. Caiff deiliaid dyfarniadau presennol a blaenorol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru eu rhestru ar y wefan a gall hyn fod yn adnodd defnyddiol.

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael ar ein gwefan hefyd gan gynnwys gweminarau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar ddod a rhai sydd wedi'u recordio.